

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 11 Gorffennaf 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

### Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

#### Byrddau Gwyn

**C7 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar y camau a gymerwyd hyd yn hyn i roi 'byrddau gwyn' mewn dosbarthiadau ysgol? (OAQ18880)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae pob ysgol yng Nghymru erbyn hyn wedi cael offer bwrdd gwyn neu offer amlgyfrwng eraill, a'r rheini wedi'u hariannu drwy strategaeth Cymru Ar-lein y Cynulliad. Yr ydym hefyd wrthi'n gweithio ar drefniadau ar gyfer darparu swyddi i gynnig cefnogaeth a hyfforddiant technegol ychwanegol er mwyn helpu i ddatblygu'r rhwydwaith band llydan ar gyfer dysgu gydol oes. Bydd hynny'n cynnwys arian i hyfforddi athrawon i wella eu defnydd o'r byrddau gwyn.

#### Cyllideb ar gyfer Gwella Adeiladau Ysgol

**C8 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y gyllideb ar gyfer gwella adeiladau ysgol? (OAQ18908)

**Jane Davidson:** Mae'r ddarpariaeth yn tyfu'n barhaus, sy'n galluogi'r awdurdodau i gynllunio at y dyfodol, a gweithio tuag at nod 'Gwellcymru.com', sef erbyn 2010 y bydd pob ysgol mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda.

#### Plant ag Anawsterau

**C9 Pauline Jarman:** A wnaiff ddatganiad ar y cymorth sy'n cael ei gynnig i blant ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol ac eraill yn ysgolion Cymru? (OAQ18920)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi sicrhau bod £10.86 miliwn ar gael o dan raglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant eleni i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol. Mae hynny'n cynnwys mesurau i ymdrin â phroblemau presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgolion a chymorth i'r gwasanaeth gwaith cymdeithasol addysgol. Hefyd, mae modd asesu ac ymdrin ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol fel anghenion arbennig addysgol.

#### Cymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

**C10 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth addysgol sy'n cael ei roi i blant sy'n derbyn gofal wrth iddynt ymuno ag addysg bellach ac uwch? (OAQ18881)

**Jane Davidson:** Mae cyfrifoldebau rhieni corfforaethol yn enwedig o bwysig ar y cyfnod hollbwysig o drosglwyddo i addysg ar ôl 16 oed. Yn aml, mae angen iddynt hwy barhau i gynnig cyngor a chymorth i unigolion o'r fath wrth iddynt fynd i goleg addysg bellach neu uwch.

I hwyluso hynny, mae'r Cynulliad yn darparu rhwyd achub ar ffurf cronfeydd mynediad a chaledi i'r rhai sydd ag anawsterau ariannol ac na allent fel arall astudio eu cyrsiau am resymau ariannol. Yn ei ganllawiau presennol, mae'r Cynulliad yn esbonio mai myfyrwyr a fu mewn gofal ddylai fod ymhlith y blaenoriaethau o ran rhoi cymorth. Hefyd, bydd y rhai sydd yn 18 oed neu'n hŷn ac yn dilyn cwrs sy'n dechrau fis Medi 2002, yn gallu gwneud cais am grant dysgu'r Cynulliad, a fydd yn rhoi cymorth gwarantedig i fyfyrwyr sy'n gymwys.

*Tynnwyd cwestiwn 11 (OAQ18867) yn ôl.*

### **Addysg Cyfrwng Cymraeg**

**C12 Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau addysg yn ysgwyddo'u hymrwymiaidau o ran darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, fel ag a nodir yn eu cynlluniau statudol ar gyfer addysg Gymraeg? (OAQ18862)

**Jane Davidson:** Yr awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am benderfynu a oes angen lleoedd ychwanegol mewn ysgolion Cymraeg ac am weithredu i ddarparu'r lleoedd hynny. Dylid rhoi'r casgliadau am yr angen am ragor o leoedd mewn ysgolion Cymraeg (neu am gael gwared arnynt) yng nghynllun blynyddol trefniadau ysgolion yr awdurdod. Dylai hynny fod yn gyson â'r cynllun addysg Gymraeg y bydd yr awdurdod wedi'i gyhoeddi.

Mae sawl awdurdod addysg lleol wedi nodi yn eu cynlluniau trefniadau ysgolion bod angen ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng ac maent wrthi'n bwrw ymlaen â'u cynigion. Fel arfer, mae hynny'n gofyn am ymgynghori'n lleol a chyhoeddi hysbysiadau statudol. Os oes gwrthwynebu, fe ddaw'r achos ger fy mron, fel y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, i benderfynu yn ôl y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynwyd. Mae targedau mewn cynllun addysg Gymraeg i gynyddu'r ddarpariaeth, ac felly yn dibynnu ar gwblhau'r prosesau statudol angenrheidiol yn llwyddiannus.

### **Y Fagloriaeth Gymreig**

**C13 Jonathan Morgan:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu i'r Fagloriaeth Gymreig ddisodli'r cymhwyster Safon Uwch? (OAQ18868) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

**Jane Davidson:** Mae'r fagloriaeth Gymraeg wedi'i llunio fel y bydd y cymwysterau traddodiadol cyfredol, gan gynnwys safonau uwch y dystysgrif addysg gyffredinol, yn elfennau a fydd yn rhan ddewisol o'r cymhwyster. Bydd yr agwedd bwysig hon ar y fagloriaeth Gymreig yn diogelu buddiannau'r myfyrwyr sydd yn cymryd rhan yn y rhaglen arloesi.

### **Athrawon (Absenoldebau a Salwch sy'n Ymwneud â Straen)**

**C14 Val Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r broblem o absenoldebau a salwch sy'n ymwneud â straeon yn y proffesiwn dysgu? (OAQ18879)

**Jane Davidson:** Ar 25 Ebrill eleni cyflwynais Teacher Support Line Cymru—gwasanaeth cymorth a chynghori dwyieithog sydd ar gael yn rhad ac am ddim am 24 awr y dydd i athrawon yng Nghymru. Gwasanaethir y gwasanaeth gan gynghorwyr cymwysedig y bu llawer ohonynt yn athrawon. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn talu hanner y gost. Cafwyd croeso eang i'r gwasanaeth fel cyfraniad adeiladol tuag at fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â straeon yn y proffesiwn.

### **Gwaharddiadau Tymor Byr**

**C15 Mick Bates:** Faint o waharddiadau tymor byr a fu yng Nghymru y llynedd? (OAQ18929) [R]

**Jane Davidson:** Yn y flwyddyn academaidd 2000-01, cofnodwyd bod 11,674 o waharddiadau am gyfnodau penodedig o ysgolion a gynhelir. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffigurau hyn yn natganiad ystadegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 11/2002, a gyhoeddwyd ar 3 Ebrill 2002.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cyfraddau Ysmygu

**C7 Alun Pugh:** A yw'r Gweinidog yn derbyn mai'r gwahaniaethau yn y cyfraddau ysmygu yw'r ffactor pennaf o ran anghyfartaleddau iechyd yng Nghymru? (OAQ18853)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Gellir nodi ysmygu fel elfen sy'n cyfrannu at y bwlch rhwng disgwyliadau bywyd iach rhwng y sawl sydd fwyaf anghenus a'r sawl sydd â'r manteision mwyaf. Er hynny, mae diffyg cydraddoldeb ym maes iechyd hefyd yn ymwneud yn annatod ag amrywiaeth o achosion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol megis ansawdd tai; pa mor hawdd yw cael a chyrraedd y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysgol; cyfleoedd gwaith, a lefelau llygredd. Rhaid ymdrin â'r amodau cymdeithasol sylfaenol er mwyn llwyddo wrth fynd i'r afael ag elfennau peryglus unigol, megis ysmygu, bwyta'n wael neu ddiffyg ymarfer corff.

### Gwasanaeth Ambiwllans

**C8 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth y gwasanaeth ambiwlans yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (OAQ18848)

**Jane Hutt:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn darparu gwasanaethau ambiwlans i'r 465,000 o bobl sydd yn y Canolbarth a'r Gorllewin, mewn ardal sydd ar y cyfan yn wledig.

Ym mis Ionawr, cyhoeddais fod £1 miliwn ychwanegol ar gael i'r gwasanaethau ambiwlans brys ac mae'r ymddiriedolaeth erbyn hyn wedi cytuno ag Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ynglŷn â sut y caiff yr arian ei ddefnyddio yn yr ardal. Bydd yr arian yn rhoi hwb i ddarpariaeth gynorthwyol ar draws yr ymddiriedolaeth; newid un orsaf wrth-gefn yn yr Hendy-gwyn ar Daf i roi gwasanaeth llawn 24-awr; ambiwlans yn y Drenewydd ym Mhowys; ac addasu'r cerbyd ymateb brys yn Aberteifi i fod yn ambiwlans. Bydd y ddau ambiwlans yn gweithredu am bum niwrnod yr wythnos am wyth awr y dydd.

### Gwasanaethau Dialysis yr Arennau

**C9 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau dialysis yr arenau yng Nghymru? (OAQ18959)

**Jane Hutt:** Ein strategaeth yw gwella cynllunio, darparu ac ansawdd y gwasanaethau iechyd drwy fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol. Cyhoeddais y caiff fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ei ddatblygu i'r gwasanaethau arenol yng Nghymru, a bydd yn ymdrin â gwasanaethau dialysis.

Cyn hir, sefydlir grŵp ymgynghori allanol, a'i swyddogaeth fydd rhoi cyngor am ddatblygu a gweithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, a bydd rheolwr prosiect yn cael ei benodi i sicrhau bod y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn cael ei gyflawni'n brydlon.

### Marwolaethau sy'n Gysylltiedig ag Epilepsi

**C10 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynyddu ymwybyddiaeth pobl broffesiynol ym maes iechyd o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag epilepsi? (OAQ18945)

**Jane Hutt:** Ym mis Mai, cyhoeddodd Epilepsy Bereaved adroddiad '*National Sentinel Clinical Audit of Epilepsy-Related Death*'. Cafodd ei gomisiynu gan bob un o'r pedair adran iechyd yn y DU. Ymhlith y

rhai a gymerai ran oedd cangen Brydain o'r gynghrair ryngwladol yn erbyn epilepsi, Coleg Brenhinol Meddygon Teulu, y Coleg Nyrsio Brenhinol, y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, Coleg Brenhinol y Patholegwyr a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion.

### Oedi wrth Drosglwyddo Cleifion

**C11 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut i fynd i'r afael â'r broblem oedi wrth drosglwyddo cleifion o ysbytai ledled Cymru? (OAQ18893)

**Jane Hutt:** Mae'r GIG a'r awdurdodau lleol, ar y cyd â'u partneriaid yn y sectorau annibynnol a gwirfoddol, yn gweithio ledled Cymru i osgoi rhoi cleifion mewn ysbytai yn ddiangen ac i leihau unrhyw oedi cyn trosglwyddo cleifion. Gwn am lawer o fentrau, gan gynnwys darparu cymorth i'r sawl sy'n gadael ysbytai, timoedd ymateb brys a pheynnau ychwanegol o ofal gartref sydd wedi'u sefydlu ledled Cymru i leihau oedi cyn trosglwyddo cleifion.

Er mwyn cynorthwyo'r ymdrechion lleol hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyfanswm o £17 miliwn dros ddwy flynedd i helpu lleihau oedi cyn trosglwyddo cleifion ac i gryfhau'r sector cartrefi gofal.

Ar 1 Gorffennaf, cyhoeddodd Edwina Hart y rhaglen addasu ymateb brys. Ymhlith ei hamcanion, mae caniatáu man-addasiadau i gartrefi gael eu gwneud yn gyflym i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai.

Cymerwyd camau i wella'r broses o gofnodi, monitro a dadansoddi faint o oedi sydd cyn rhyddhau cleifion o ysbytai, a'r rhesymau amdano. Mae gwaith ar y gweill i gasglu a chylchredeg arferion da a chanllawiau am y broses o ryddhau cleifion o ysbytai.

### Gofal Seibiant

**C12 Janet Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella'r gofal seibiant cynhwysfawr a ddarperir i bobl ag anableddau difrifol? (OAQ18948)

**Jane Hutt:** Mater i'r awdurdodau lleol a/neu'r awdurdodau iechyd i'w benderfynu'n lleol yw darparu gofal seibiant i bobl ag anableddau difrifol. Dylid cael ei gynnwys yn eu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion, drwy gydweithio â'r asiantaethau priodol, gan gynnwys y sector gwirfoddol.

Mae gennyf sawl mesur ar y gweill. Er 2001-02, yr wyf wedi darparu £17 miliwn i'r awdurdodau lleol drwy gynllun grant arbennig y gofalwyr i wella gwasanaethau er budd y gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o hynny wedi'i chyfeirio at ddarparu gofal seibiant ychwanegol, gan gynnwys seibiant i bobl anabl. Yr wyf hefyd wrthi'n datblygu taliadau uniongyrchol a chynlluniau talebau i roi mwy o annibyniaeth a dewis o ran gwasanaethau seibiant ac eraill i bobl anabl.

### Contractau Meddygon Teulu

**C13 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ofynion recriwtio a chadw y contractau arfaethedig ar gyfer meddygon teulu? (OAQ18939)

**Jane Hutt:** Ni allaf feintoli effeithiau'r contract newydd i feddygon teulu ar y gweithlu nes bod y cam nesaf o negodi manwl wedi'i gwblhau. Gobeithiaf y bydd yr egwyddorion sydd yn y cytundeb fframwaith yn lleihau'r baich gwaith ar y meddygon drwy ddefnyddio gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill yn fwy.

### Gwella Meddygfeydd

**C14 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyddiad dod i rym y rheoliadau sy'n ymwneud â gwella meddygfeydd meddygon teulu i gyrraedd safonau cenedlaethol? (OAQ18961)

**Jane Hutt:** Mae Ystadau Iechyd Cymru wrthi'n gwneud archwiliad o feddygfeydd yng Nghymru. Bydd y canlyniadau yn pennu blaenoriaethau gwella meddygfeydd.

Hefyd, mae darpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a'r cysyniad o 'addasiadau rhesymol' yn gosod gofynion eang ar ddarparwyr gwasanaethau. Erbyn 2004, bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys meddygfeydd, wneud addasiadau rhesymol i'w hadeiladau i gael gwared ar rwystrau i fynediad. Caiff hynny ei ystyried yn yr archwiliad.

### Ymchwil Canser

**C15 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllido ymchwil i ganser yng Nghymru? (OAQ18955)

**Jane Hutt:** Cydnabyddir bod ymchwil i ganser ymhlith y prif flaenoriaethau yng Nghymru.

- Mae rhwydwaith treialon cancer Cymru wedi'i ariannu ar y cyd gan y Cynulliad ac Ymgyrch Ymchwil Canser er 1998. Eleni a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf, bydd y rhwydwaith treialon cancer yn cael cyllid ychwanegol, sef bron i £1.7 miliwn i ariannu cam nesaf ei waith.
- Mae'r strategaeth ymchwil a datblygu newydd i iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys argymhelliad bod rhaglen gydlynol bum-mllynedd o ymchwil cancer yn cael ei datblygu i Gymru.
- Cyfanswm cyllid ymchwil a datblygu i ganser yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol 2000-01 oedd £2.6 miliwn i ddarparwyr y GIG a £167,000 ar grantiau ymchwil sydd wedi'u hariannu gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru.
- Mae canolfannau cancer Cymru yn chwarae rhan weithgar mewn llawer o dreialon rhwng canolfannau a ariennir gan gynghorau cenedlaethol a chynghorau ymchwil.